Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 1: Geiriau tebyg

'Sgrialodd Gel ar ôl y bêl...'

Defnyddiodd Gwyn Thomas y ferf 'sgrialodd' yn lle 'rhedodd'.

Rhan o gyfoeth unrhyw iaith yw bod sawl ffordd o ddweud rhywbeth. Ydych erioed wedi ystyried y gwahanol ffyrdd y gallwn ni fod yn dweud ein bod yn defnyddio ein llygaid? Er enghraifft:

edrych, gweld, syllu, rhythu, gwylio, craffu, taflu golwg, ayb

TASG:

Dewch o hyd i wahanol ferfau yn ymwneud â 'rhedeg'. Gallwch chwilio mewn geiriadur. Mae Gwyn Thomas yn defnyddio un yn nes ymlaen yn y stori: 'calpio'. Mae'n ffurf Gymraeg ar y Saesneg 'to gallop'.

Mae'r un cyntaf wedi ei wneud i chi.

BERFENW	1	2	3	4	5
edrych	syllu	rhythu	gwylio	craffu	gweld
rhedeg					
bwyta					
siarad					
dweud					

Defnyddiwch y berfau hyn mewn brawddegau.

e.e. edrych – Syllodd Sam drwy'r ffenestr ar ei ffrindiau'n chwarae tra eisteddai yn yr ystafell gosb.

Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 2: Tafodiaith

Mae'n debyg eich bod wedi gweld nifer o eiriau tafodieithol yn y stori, e.e. "Dim ffiars o beryg". Mae tafodiaith, yn enwedig mewn deialog, yn ychwanegu naturioldeb at y stori.

Edrychwch ar y darn isod o'r stori, a newidiwch y darn i unrhyw dafodiaith arall:

"Mae o wedi sefyll yn stond," meddai Arthur.

"Sefyll yn stond fuaswn innau hefyd," meddai Jenni, "petawn i'n gi. 'Swn innau ddim yn calpio i ganol cerrig ar ôl rhacsan o bêl chwaith."

"Mae 'na rywbeth yn bod," meddai Arthur. Cerddodd y ddau ohonyn nhw ar hyd y tywod at odre'r cerrig.

"Sbia, mae o wedi codi'i wrychyn," meddai Arthur. "Be sy'n dy boeni di, wàs?"

Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 3: Geiriau anghyfarwydd

‘Dyma ganu’r gloch eto, a’i chlywed yn **trillian** rywle yng nghrombil y tŷ.’ (t. 19)

Mae’n ddigon posib nad ydych erioed wedi clywed y gair ‘trillian’ o’r blaen.

Mae’n bosib dyfalu’n eithaf cywir beth yw ystyr gair wrth edrych ar y cyd-destun.

Edrychwch ar y geiriau isod. Mewn parau, trafodwch pa rai o’r geiriau yma allai fod yn golygu ‘trillian’. Rhowch nhw yn eu trefn, o’r mwyaf tebygol i’r lleiaf tebygol.

atseinio, chwyrnu, goleuo, marw, gweiddi, aros, cydio, llenwi.

1	
2	
3	
4	
5	
6	
7	
8	

Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 4: Idiomau

Wrth i Jenni fynnu mynd i mewn i'r tŷ yn Rochdale, a cherdded i fyny'r grisiau, mae Arthur yn defnyddio'r ansoddair 'pengaled' i'w disgrifio (t.20).

Mae llawer o idiomau neu ddywediadau yn defnyddio'r enw 'pen':

dod i ben fy nhennyn

a fo ben bid bont

ar fy mhen fy hun

angel pen ffordd, diawl pen pentan

pen talar

Ceisiwch ddod o hyd i ystyron y dywediadau uchod, a dewch o hyd i fwy sy'n cynnwys y gair 'pen'.

Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 5: Tasg ymchwilio

'Fe wyddai Arthur a Jenni eu bod nhw'n sgrechian, yn sgrechian fel y bod hwnnw yn llun enwog Munch.' (t. 20)

Dyma lun Munch.

Edward Munch yw enw'r artist. Beth yw cefndir y darlun? Pam mae'r cymeriad yn sgrechian?



Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 6: Ysgrifennu disgrifiadol

Ewch ati i ysgrifennu cerdd neu baragraff disgrifiadol yn seiliedig ar y llun hwn. Cofiwch sylwi bod dau gymeriad arall yn y llun hefyd. A oes gan y rhain unrhyw beth i'w wneud â'r sgrech, tybed?

Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 7: Llunio adroddiad papur newydd

Erbyn diwedd y stori, mae'r manylion am y llofruddiaethau yn Rochdale flynyddoedd yn ôl yn dod yn glir.

Ysgrifennwch adroddiad papur newydd o'r cyfnod yn rhoi hanes y digwyddiad.

Defnyddiwch wybodaeth o'r stori i lunio'r adroddiad.

Hefyd, dylech ddefnyddio eich dychymyg i holi'r awdurdodau, e.e. heddlu/gwasanaethau cymdeithasol.

Hogan Bach Mewn Ffrog Goch – CA3/4

Tasg 8: Chwarae triciau

"Yli, rydyn ni wedi sôn digon am hyn," meddai Arthur. "OK, mi welson ni rywbeth. Cywiriad. Rydym ni'n **meddwl** ein bod ni wedi gweld rhywbeth."

Yn aml, mae'r llygad yn gallu chwarae triciau ar y meddwl.

1. Oes cwmwl bach llwyd lle mae'r llinellau gwynion yn croesi?



Mae A yn llwyd ac mae B yn wyn?

Anghywir!



Rhowch eich bys dros y llinell lle maen nhw'n cwrdd, ac fe gewch weld mai'r un lliw yw'r ddau ohonyn nhw!